# Papur
## Elim, Heol Awst a'r Priordy

## Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin

**IESU, FY MHROFFWYD I A'M PEN,**
**F'OFFEIRIAD MAWR A'M BRAWD,**
**FY MYWYD I, FY FFORDD, FY NOD,**
**DERBYN FY MOLIANT TLAWD.**

**John Newton (1725-1807) cyf. David Charles (1803-1880)**

**Caneuon Ffydd: 287**

*Gweler yr erthygl y tu mewn*

**Rhifyn 14**
**PAPUR TACHWEDD 2025**

# GAIR GAN EIN GWEINIDOG

**Gwlad Thai – *Dyfalbarhau yn eich Tystiolaeth***

***RWY ADRE!***




***MAE'N*** anodd iawn crynhoi fy nheimladau ar ôl treulio 10 diwrnod yng Ngyfarfod Blynyddol Cymuned Eglwysi Diwygiedig y byd (WCRC – World Communion of Reformed Churches) sy'n cwrdd pob 7 mlynedd, ac eleni yn ninas Chiang Mai yng Ngwlad Thai.

Ond dyma rai uchafbwyntiau:

**Croeso**
Eglwys Bresbyteraidd Gwlad Thai oedd yn croesawu'r Gynhadledd a bu eu croeso'n rhyfeddol – o'r funud i ni lanio i'r funud i ni adael am adre. Roedd y paratoadau yn arbennig a chawsom flas ar ddiwylliant y wlad mewn lliw, dawns, ceddoriaeth a chân a llwyddwyd i weu diwylliant y wlad i mewn i bob agwedd ar y gynhadledd. Roedd wir yn wledd i'r llygad a'r glust.

**Addoliad**
Roedd y gynhadledd yn un llawn iawn gyda sesiynau'n cael eu cynnal o fore tan nos. Cychwynnwyd pob diwrnod gydag addoliad ac Astudiaeth Feiblaidd. Fe fydd yr addoliad yn aros gyda fi am amser hir a gobeithiaf addasu rhai agweddau ohono ar gyfer ein hoedfaon ni yn yr ofalaeth. Roedd pob gweddi a chân a neges yn wirioneddol fendithiol gyda'r cytganau a'r emynau yn plethu'n arbennig a'r cwbl yn cael ei arwain gan arweinwyr cerddorol. Roedd yr oedfaon yn llawn lliw, llawenydd a sylwedd. Mae'n amlwg y bu paratoi manwl iawn ar gyfer y wedd hon. Roedd y Gymuned yn dathlu 150 mlynedd eleni ers ei sefydlu, a chafwyd oedfa ddathlu arbennig o fywiog ar y p'nawn Sul. Braint oedd mynychu oedfa mewn eglwys leol - Payap Church - ar y bore Sul a derbyn croeso twymgalon iawn yno.

**Busnes**
Roedd rhaglen lawn iawn a oedd yn cynnwys adroddiadau i'w hystyried a'u derbyn gyda phob cynrychiolydd yn chwarae rhan lawn

mewn trafodaethau a phenderfyniadau. Roedd y gynhadledd yn fforwm trafod ardderchog a chan fod cymaint o eglwysi a gwledydd a



thraddodiadau yn cael eu cynrychioli, roedd y trafodaethau yn hynod o ddiddorol. Roedd ambell bwnc yn eitha sensitif wrth reswm pan ysytyriwn rai sefyllfaoedd anodd yn ein byd ar hyn o bryd, ynghyd â safbwyntiau gwahanol, ond y cwbl, yn fy marn i, yn agor y meddwl, yn ein haddysgu am heriau ein brodyr a'n chwiorydd mewn gwledydd eraill ac yn gwneud i ni sylweddoli mor dda y mae arnom ni yn y gorllewin.

**Gweithdai**

Ymhlith yr arlwy a drefnwyd ar ein cyfer, roedd cyfres o weithdai amrywiol. Manteisiais ar y cyfle i fynychu'r sesiynau yn trafod *Yr Eglwys ac Anableddau*, *Prosiect Onesimus* (y mae Undeb yr Annibynwyr yn ymwneud â hi drwy Cyngor y Gyngor y Genhadaeth Fyd-Eang) Fforwm Ewrop, a'r Fforwm Menywod. Roedd Fforwm yr Ieuenctid yn cwrdd hefyd ond fy mod bach yn hen i hwnnw!



Trefnwyd alldeithiau ar ein cyfer a braf oedd ymweld â phrosiect yn Nghanolfan Datblygu Dysgu Huai Hong Khrai, sy'n cynnal rhaglenni i warchod a datblygu fforestydd, pridd a dŵr yn rhannau o Ogledd Gwlad Tai. Taith ddiddorol iawn yn wir a braf oedd bod mas yn yr awyr iach yn y mynyddoedd - er braidd yn boeth! Rhyfeddu at yr amrywiaeth o goed a phlanhigion a chyfle i gnoi ar ddeilen o'r goeden *Gynama* sy'n cael ei chydnabod yn ffiseg am ostwng lefelau siwgr yn y corff. Rwy wedi archebu llond whilber ohonynt! Dyma gyfle i werthfawrogi creadigaeth Duw a gweld yr ymdrech i warchod y darn bach hwn o'r greadigaeth.

**Papurau Trafod**

Cawsom anerchiadau gan Ddiwinyddion amlwg a phob darlith yn ysgogi'r meddwl, yn dwysbigo'r galon a'r gydwybod. Gwrandawyd ar anerchiadau yn trafod *Cymuned; Gweithio gyda'r holl bartneriaid mae Duw yn eu darparu; Mennonites; Cyfamodi ar gyfer Cyfiawnder; Diwinyddiaeth ar gyfer Byd Drylliedig; Cenhadaeth; Yr Anabl yn rhan o Gorff Crist ac Ymrwymiad i Frodorion.* Bu'r trafodaethau dilynol yn rhai

gwerthfawr tu hwnt ac yn addysg ynddynt eu hunain am gefndiroedd a diwylliant gwledydd eraill. Er bod nifer o heriau yn gyffredin i ni i gyd, eto, roedd diwylliant ambell wlad yn rhwystro datblygiadau mewn ambell faes. Gwnaed datganiadau a phenderfyniadau yn dilyn trafodaethau.

**Yn Un**
Roedd pawb **mewn** gwisg du ar ddydd Iau i gefnogi ymgyrch Cyngor Eglwysi’r Byd *Thursday in Black,* er mwyn lleisio'n gwrthwynebiad i drais, ac er mwyn sicrhau bod menywod a dynion, bechgyn a merched, yn cael eu diogelu rhag trais mewn cartrefi, ysgolion, gwaith, strydoedd – ac ym mhob man yn ein cymunedau.

Nodwyd fod eleni yn 1700 mlynedd ers ffurfio Credo Nicea yn 325OC drwy lansio cyfrol newydd, a chawsom gyfle i gyflwyno llyfrau i'r *Kawthoolei Hope Theological Seminary (KHTS)* sydd ym mhentref Phop Pra yn agos at y ffin â Myanmar. Mae'n ysgol sy'n hyfforddi arweinyddiaeth eglwysig ar gyfer y sawl nad ydynt mewn ffordd i fynychu colegau cyffelyb. Cyflwynwyd cyfrol *A Biblical Theology of Climate Change* gan Hefin Jones, a *Women, Identity and Religion in Wales* ynghyd â *Theologia Cambrensis, Protestant Religion and Theology in Wales* gen i. Felly, mae yna flas ar Gymru yn y Seminarau ym Myanmar bellach!

Ac mae llawer mwy. Roeddwn yn adrodd bob dydd ar dudalen Facebook Undeb yr Annibynwyr os ydych am ddarllen mwy am ein taith.

**Diolch**
Yn ogystal â chwrdd â chynrychiolwyr o eglwysi o bedwar ban byd, cefais gwmni ardderchog **y** Dr Hefin Jones sydd wedi gwasanaethu ar Bwyllgor Gweinyddol Cymuned Eglwysi Diwygiedig y byd ers 7 mlynedd ac wedi gwneud cyfraniad arbennig i’r wedd hon waith yr Arglwydd.



I ddisgrifio’r ymweliad mewn 3 gair – Ysbrydoldeig, Bendithiol, Bythgofiadwy**.** Hoffwn ddiolch yn ddiffuant iawn i eglwysi’r ofalaeth am fy rhyddhau o’m gwaith er mwyn mynychu’r gynhadledd hon ac i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am y fraint o’i cynrychioli.

Thema'r gynhadledd eleni oedd *'Dyfalbarhau yn eich Tystiolaeth'* – neges gref ac ysbrydoledg sydd wedi mynd adref i dros 200 o wledydd gan bob cynrychiolydd.

***YNG*** nghanol gofid a heriau'r oes hon, dal ati, dyfalbarhau yw yr alwad i ni i gyd – ym mha wlad bynnag yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddi**.**

**Gweddi (i gloi Cynhadledd Cymuned Eglwysi Diwygiedig Y Byd, Gwlad Thai, Hydref 2025)**

**Annwyl Iesu**

Rydym wedi'n casglu gan Un alwad gan ein Duw
i barhau'n ffyddlon yn ein tystiolaeth i efengyl cariad,
cynhwysiant, gofal dros y greadigaeth,
ac i ymdrechu dros gyfiawnder a heddwch yn y byd.

***Ymateb:*** Trwy nerth yr Ysbryd Glân,
byddwn yn dyfalbarhau yn ein tystiolaeth.

Mewn eiliadau o anobaith, perygl, ac anogaeth wan,
boed inni gael ein calonogi gan addewid ein Harglwydd:
"Peidiwch ag ofni, peidiwch â digalonni,
oherwydd yr wyf yn mynd o'ch blaen, ac fe fyddaf gyda chi.
Ni fyddaf yn eich gadael nac yn eich esgeuluso".

Pan fydd y ffordd yn anodd,
a'n llong yn cael ei bygwth ar y môr,
pan na wyddom beth i'w ddweud,
a phan gawn ein gwawdio oherwydd ein cred yn Iesu,
boed inni gofio:
"Ein cymorth a ddaw oddi wrth yr Arglwydd
Creawdwr nef a daear."

Cawn ein hanfon allan i'r byd.
Gadewch inni gefnogi ein gilydd mewn gweddi,
gweithio gyda'n gilydd,
law yn llaw, fel un Cymundeb,
gyda sicrwydd bendith Duw:

Bendithied Duw ni a'n cadw.
Disgleiried wyneb Duw arnom a thrugarhaed wrthym.
Edryched Duw arnom gyda charedigrwydd
a rhodded i ni dangnefedd.

**Amen**

# DARLLENIADUR

| Mis Tachwedd | Darlleniad |
|---|---|
| **Wythnos 1** | Luc 19:1-10 |
| **Wythnos 2** | Luc 20:20-38 |
| **Wythnos 3** | Luc 21:5-19 |
| **Wythnos 4** | Luc 23:33-43 |
| **Wythnos 5 – ADFENT 1** | Eseia 2:1-5 |

## DIOLCH YN FAWR

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

## HUW A RHYSWEN MICHAEL

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?
Cyswllt
PHILIP JONES
Trysorydd
☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



**Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:**

**'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds**
**30-91-68**
**Acc no: 00229403**

**neu osod cyfraniad mewn amlen a'i dychwelyd i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei rhoi yn y blwch casglu.**

## Cwrdd Diolchgarwch Elim



**Bore Sul, 5 Hydref cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Elim gyda theuluoedd yr eglwys yn cymryd rhan.  Wedi cyflwyno rhoddion i'r banc bwyd, cyhoeddwyd yr emyn cyntaf gan deulu Penlanargoed a chasglwyd gan Elina, Erin, Aneurin, Nansi a Trystan.**

**Yn dilyn gair o groeso pellach, cyhoeddwyd yr ail emyn gan deulu Penfoel, a darllenwyd gan deulu Nansi a theulu Esgairhir. Wedi datganiad hwylus o 'Braf yw bwyta' gan blant yr Ysgol Sul, darllenwyd gan deulu Bwlch cyn i deulu Penlanargoed ein harwain mewn gweddi. Bu teulu Enlli a Cai yn cyhoeddi'r emynau nesaf. Cyflwynodd pawb eu gwaith yn ardderchog.**

**Cafwyd hwyl yn olrhain y Weddi Ffâ Jeli yng nghwmni Beti Wyn cyn mwynhau cinio blasus yn y festri.   Diolch i bawb am wasanaeth hyfryd a hwyliog.**



# DIOLCHGARWCH Y PRIORDY


















**Nia Lewis**




**OEDFA DEULU YN Y PRIORDY**

Ar ddechrau'r Hydref cawsom gyfle i ddod at ein gilydd i ddiolch i Dduw unwaith yn rhagor.

Cafwyd gair o groeso gan ein Gweinidog. Yn dilyn yr emyn gyntaf a'r cyhoeddiadau, gwnaed y casgliad gan Cadi, Ifan, Greta a Noa. Yna, daeth y plant ymlaen â'u cyfraniadau i'r banc bwyd i gyfeiliant Band y Priordy; braf gweld Gwydion yn ymuno ar y drymiau am y tro cyntaf… mae'r Priordy yn ffodus iawn i gael sawl offerynnwr yn ein plith!

Daeth Greta a Miriam ymlaen i gyhoeddi'r ail emyn sef "Diolch i ti Iôr am ddiwrnod braf." Cyfle PIP (Pobl Ifanc Priordy) oedd hi i'n tywys ni drwy'r oedfa; diolch iddynt am fod mor barod i gymryd rhan.




Pump gair oedd dan sylw heddiw i gyd fynd â dathlu'r cynhaeaf. Elliw a Gwenan oedd y cyntaf i'r pulpud i rannu eu gair sef "RHYFEDDU"- diolchwn am ryfeddodau a phrydferthwch ein byd. Ymlaen at Cadi ac Ifan a'u gair nhw oedd "DIOLCH"; cyfle i ni fod yn ddiolchgar ac i werthfawrogi popeth da sydd gennym. Miriam rannodd y gair nesaf sef "PAM?". Mae rhai o broblemau'r byd yn digwydd am ein bod ni'n byw yn hunanol ac eisiau gormod o bethau da i ni ein hunain. "DIBYNNU" oedd y pedwerydd gair. Dywedodd Beca wrthym ein bod yn gwbl ddibynnol ar Dduw am bethau mwyaf syml bywyd- bwyd, diod, cartref a gwres. Anna ddaeth i sôn am y gair olaf sef "GOFALU". Cawsom ein hatgoffa o'r hyn

allwn ni ei wneud- gwneud newidiadau bach i'n ffordd o fyw fel ein bod yn defnyddio llai o adnoddau'r ddaear neu gyfrannu i fanciau bwyd.

Yn ôl yr arfer, cawsom neges bwrpasol gan Beti Wyn- gweddi'r ffa jeli oedd dan sylw heddiw- o ble mae'r syniadau yma yn dod o hyd?! Wn i ddim!

Roedd pob un o'r ffa jeli yn symbol o rywbeth fel y gwelwch- a phob plentyn yn derbyn pecyn o ffa jeli cyn gadael! Gweler y llun ar y dudalen flaenorol. Diolch i bawb am wasanaeth hyfryd.

**OEDFA DDIOLCHGARWCH YR HWYR YN Y PRIORDY**

Croesawyd aelodau'r Ofalaeth a chyfeillion eraill atom i'r Oedfa Hwyrol.




Y Thema oedd Diolch a chafwyd darlleniadau o Genesis am y Cynhaeaf a Dameg y Gwahangleifion gan Alison Parsons ac Adrian Evans. Y pregethwr gwadd oedd y Dr Fiona Gannon, Arweinydd Capel y Nant, Clydach. Mae tri pheth sydd angen eu pwysleisio wrth i ni ddiolch a dangos ein gwerthfawrogiad o'r byd o'n cwmpas. Yn gyntaf, mae angen i ni fod yn ddilys gan edrych beth mae'n Tad Nefol wedi ei wneud i ni. Does dim lle i falchder a rhagrith. Yn ail, mae angen i ni ddangos ein bod yn deall beth mae Duw wedi ei wneud i ni.  Rhaid cyfrif ein bendithion a diolch hyd yn oed am bethau sydd ddim yn bleserus. Mae angen i ni agoffa ein hunain nad ydym yn berffaith a gofyn am faddeuant a diolch am heriau a threialon. Yn drydydd, mae diolch yn sbardun i'n bywyd bob dydd. Mae diolch yn anhunanol. Rhaid sylweddoli ein bod yn ddibynnol ar Dduw ac felly dylem rannu ein diolch, er enghraifft drwy gyfrannu at y Banciau Bwyd. Yr unig ffordd o ddangos ein diolch yw drwy rannu â phawb.



Cawsom gyfle i gydgymuno dan ofal ein Gweinidog. Cafodd ei chynorthwyo gan Luned Thomas, Adrian Evans, Tim Hayes a Dennis Jones.  Roedd Heather Williams wrth yr organ.Ar ddiwedd yr oedfa buom yn cymdeithasu uwchben paned a lluniaeth ysgafn yn y Festri.  Mae'n diolch yn fawr i'r gwragedd am baratoi ac i bawb a fu'n helpu i drefnu'r ystafell.

## OEDFA DDIOLCHGARWCH AR Y CYD YN HEOL AWST

Cynhaliwyd Oedfa Ddiolchgarwch ar gyfer Capeli Elim, Heol Awst a'r Priordy yng Nghapel Heol Awst ar Fore Sul 12 Hydref.



Paratowyd Myfyrdod ar ein cyfer gan Joan Thomas (HA) a draddodwyd gan Janet Evans (HA). Fe'n hatgoffwyd mor bwysig yw i ni ddiolch bob dydd drwy gydol y flwyddyn am y bendithion a ddaw i'n rhan gan roi ein hunan yn llwyr yng ngofal Duw. Ein dyletswydd y trin y byd fel y creodd Duw ef – a'i drin yn gyfrifol bob amser.

Fe'n gwahoddwyd at Fwrdd y Cymun gan y Parchedig Tom Defis. Fe'i cynorthwywyd gyda'r elfennau gan Phil Hopley a Rhian Jones.

Yn cymryd rhan yr Oedfa roedd Jacqueline Saywell (P), Ann Walters (E), Bet Jones (E), Rhian Jones (HA), Emlyn Schiavone P) Catrin Ann (P). Roedd Llio Dyfri wrth y piano a'r cyhoeddwr oedd Hywel Evans.

## LOGO NEWYDD SBON DANLLI!

Papur
Elim, Heol Awst a'r Priordy
Gofalaeth Caerfyrddin
a Bancyfelin

**Fe welwch logo newydd ar dudalen blaen ein Papur. Mae'n diolch yn fawr i'n Gweinidog am ei ddylunio.**

# CWIS Y DIARHEBION CYMRAEG

Mae pob dihareb yn dechrau gyda'r llythyren 'N'

Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair coll!
Pob lwc!!

| | |
|---|---|
| 1 | Na wna elyn o'th --- |
| | |
| 2 | Nerth gwlad ei --- |
| | |
| 3 | Nes elin nag --- |
| | |
| 4 | Ni bu fwg heb --- |
| | |
| 5 | Ni cheir afal pêr ar bren --- |
| | |
| 6 | Nid aur popeth --- |
| | |
| 7 | Nid erys --- |
| | |
| 8 | Nid gardd heb ei --- |
| | |
| 9 | Nid oes meddyg rhag --- |
| | |
| 10 | Nid oes neb heb ei --- |

Atebion ar Dudalen 32

## CHWIORYDD ELIM



**Croesawyd Elfed a Linda Davies, Hermon i Gymdeithas Chwiorydd Elim yn ystod mis Hydref a chawsom brynhawn difyr a diddorol yn gwrando ar y ddau yn sôn am eu teithiau i Batagonia.**


**Mwynhawyd paned a danteithion ar ddiwedd y cyfarfod a bu'r prynhawn ar ei hyd yn un hwylus iawn**

**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau, 27 Tachwedd 2025**



**Y Gynhadledd am 10.30**
**Cyfarfod y Prynhawn am 1.30pm**

**Capel Seilo, Llangeler**



# GŴYL GERALLT

## 15-16 TACHWEDD, 2025

**BORE a PHRYNHAWN SADWRN, 15 Tachwedd:**
**Lleoliad dydd: Amgueddfa Abergwili**

**11:00am** - Talwrn y Beirdd Radio Cymru |
Ysgol Maes y Gwendraeth v Ysgol Bro Myrddin
**14:00 - 17:30pm** - Canrif ers Cyhoeddi Cerdd Dafod
Llys Barn: Cerdd Orau Dic Jones
Darlith: Llyfr Du Caerfyrddin
Cip ar Drysorau Abergwili

**Lleoliad nos: Gwesty Pen y Baedd, Caerfyrddin**

**19:30pm** - Ocsiwn Trysorau Llên
Pynciau Pencerdd
Ymryson y Beirdd: Tîm Hywel Dda v Tîm Gwenllian v
Tîm Arglwydd Rhys

**BORE SUL, 16 Tachwedd:**
**11:15 am** - Taith Gerdded Tref Caerfyrddin
(rhagor o fanylion i ddilyn)

## PRIS TOCYN: £20

Tocynnau ar werth yn Siop y Pentan, Caerfyrddin neu
cysylltwch ag **aled@barddas.cymru**





**GWASANAETH NADOLIG**
**CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**Prynhawn Gwener – 5 Rhagfyr 2025**
**2.30**
***gyda'n* Gweinidog**

**PANED A SGWRS**
**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**DYDD MERCHER, 12 TACHWEDD 2025**
**Paned a Sgwrs a Myfyrdod Byr**
**am 10.30**
**Croeso cynnes i bawb**

**Ein Papur yn cofio**

**JOHN HENRY NEWTON**

**1725-1807**



**Fe’i ganed yn Wapping, Llundain 24 Gorffennaf 1725, yn fab i John, capten llong, a’i wraig Elizabeth. Collodd ei fam, Anghydffurfiwr cadarn ei ffydd, pan oedd yn chwech oed. Priododd ei dad eto, ac ar ôl bod mewn ysgol breswyl am ychydig flynyddoedd, aeth i fyw gyda'i dad a'i lysfam. Byddai’n mynd ar deithiau morol gyda’i dad, capten llong gyda’r llynges fasnach.**

**Yn 1744 cafodd ei wysio i ymuno â’r Llynges Frenhinol. Cafodd ei ddal yn ffoi a’i fflangellu. Wedyn, bu’n gweithio ar longau a oedd yn gysylltiedig â’r fasnach gaethweision. Yn 1748, tra oedd ar fwrdd llong o’r enw Greyhound cododd storm ddychrynllyd. Cafodd droedigaeth yn ystod y storm ond yn ddiweddarach y daeth yn grediniwr llwyr.**

**Yn 1750, priododd Mart Catlett, ei gariad o blentyndod ac erbyn 1755 roedd wedi torri pob cyswllt â'r fasnach gaethweision.**

**Yn 1764 cyhoeddodd The Authentic Narrative, hanes ei fywyd ar y môr a’r modd y cryfhaodd ei ffydd grefyddol. Daeth yn offeiriad gwladol gydag Eglwys Loegr a derbyniodd swydd fel curad yn eglwys yn Olney, Swydd Buckingham. Yn 1767, sefydlodd y bardd William Cowper ei hun yn Olney, a dechreuodd yntau a Newton gyfeillgarwch a barhaodd hyd at farwolaeth Cowper. Ysgrifennodd Cowper a Newton gyda'i gilydd Hymnau Olney (1779), sy'n cynnwys 68 hymn gan Cowper a 280 gan Newton. Ymhlith cyfraniadau mwyaf nodedig Newton roedd “Amazing Grace,” “Glorious things of Thee are spoken,” a “How sweet the name of Jesus sounds”**



Gadawodd Newton Olney yn 1779 i wasanaethu yn eglwys St Mary Woolnorth yn Llundain. Wrth i'w ffydd dyfu ac aeddfedu dros y blynyddoedd daeth yn fwy edifar am ei ran mewn caethwasiaeth a dechreuodd siarad yn ei erbyn. Ym 1787, ysgrifennodd “Thoughts Upon the African Slave Trade” gyda’r gobaith o ddod â diwedd i gaethwasiaeth. Llwyddodd i berswadio’r aelod seneddol William Wilberforce a oedd ei hunan wedi profi troedigaeth grefyddol ddofn i barhau i geisio dileu caethwasiaeth yn y Senedd yn hytrach na dilyn bywyd fel clerigwr. Trwy ddyfalbarhad ac ymdrech Wilberforce, llwyddwyd i basio mesur drwy’r Senedd yn 1807 i ddiddymu’r fasnach gaethwasiaeth yn yr Ymerodraeth Brydeinig am byth.



Parhaodd Newton i bregethu hyd nes ei farwolaeth, er ym mlynyddoedd olaf ei fywyd roedd yn ddall. Ar 21 Rhagfyr 1807, bu farw yn 82 oed a’i gladdu yn St Mary Woolnorth. gyda’i wraig a fu farw yn 1890. Bu rhaid symud gweddillion y ddau i gornel fach o faes Eglwys Sant Pedr a Paul, Olney yn 1893. Gan fod angen ymestyn rheilffordd danddaearol Llundain bu rhaid symud gweddillion y gŵr a'r wraig i gornel o faes Eglwys Sant Pedr a Paul, Olney, yn 1893.

Yn Adran yr Emynau Saesneg yn Caneuon Ffydd mae Amazing Grace, emyn enwocaf John Newton. Mae hefyd emyn ganddo yn yr Adran Gymraeg (How sweet the name of Jesus sounds) sydd wedi’i gyfieithu i’r iaith honno gan
David Charles, y pregethwr a’r emynydd o Gaerfyrddin.

Meddai Cydymaith i Ganeuon Ffydd am yr emyn hwn: *Byddai Newton yn aml yn cymryd enw Duw yn ofer cyn ei dröedigaeth, ac mae’r emyn hwn yn adlewyrchu’r newid agwedd a meddwl at Grist wedi iddo ddod yn Gristion*. Mae’r emyn yn seiliedig ar eiriau o Ganiad Solomon 1:3 ‘ennaint tywalltedig yw dy enw’.

Dyfynnwn yr emyn yn llawn i gofio am ŵr arbennig iawn a aned dri chanrif yn ôl i’r flwyddyn hon:


**Mor beraidd i'r credadun gwan**
**yw hyfryd enw Crist:**
**mae'n llaesu'i boen, yn gwella'i glwy',**
**yn lladd ei ofnau trist.**

**I'r ysbryd clwyfus rhydd iachâd,**
**hedd i'r drallodus fron;**
**mae'n fanna i'r newynog ddyn,**
**i'r blin, gorffwysfa lon.**



**Hoff enw! fy ymguddfa mwy,**
**fy nghraig a'm tarian yw;**
**trysorfa ddiball yw o ras**
**i mi y gwaela'n fyw.**

**Iesu, fy Mhroffwyd i a'm Pen,**
**f'Offeiriad mawr a'm Brawd,**
**fy mywyd i, fy ffordd, fy nod,**
**derbyn fy moliant tlawd.**




**Y Lolfa**
**Hydref 2025**
**£11.99**

**DAL I FOD YN FI**
**Mari Grug**

**Golygwyd gan**
**Meleri Wyn James**

*Ebrill 2023 roedd y cyflwynydd teledu Mari Grug yn eistedd ar y soffa gyda'i gŵr, Gareth, pan ffeindiodd hi lwmp yn ei bron. Erbyn Mai roedd wedi derbyn y newyddion gwaethaf posib - deiagnosis o ganser y fron oedd wedi lledu i'r nodau lymff a'r afu. Mae'r gyfrol hon yn dweud stori ddirdynnol, llawn dewrder y fam i dri. Mewn geiriau a lluniau personol ohoni hi a'r teulu down i nabod y Mari go iawn.*

## CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN

## EGLWYS SAEMOONAN, SEOUL, DE COREA
**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**



**Sefydlwyd Eglwys Saemoonan yn 1887. Hi yw Eglwys Bresbyteraidd hynaf Corea ond mae wedi'i lleoli yn ei hadeilad mwyaf newydd. Cwblhawyd yr adeilad yn 2019.**

**Mae gan yr eglwys 13 llawr yn ardal Jongno-gu yn Seoul. Mae amryw nendyrau o'i chwmpas.**

**Dyluniwyd yr adeilad gan y pensaer Lee Eunseok, awdurdod mewn pensaernïaeth grefyddol.**

**Mae'r siâp yn debyg i freichiau mam wedi'u hymestyn tuag at y nefoedd.**




## Hwyl yn yr Ysgol Sul yn Elim a'r Priordy








## DIOLCHGARWCH



Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn ein Cyrddau Diolchgarwch. Ardderchog! Diolch hefyd am yr holl gyfraniadau tuag at y banc bwyd. Mae adroddiadau am y cyrddau mewn man arall yn y papur hwn.

**ifanc@gofalaeth**

### GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN
**YN CEFNOGI**
### APÊL ANRHEGION NADOLIG CYNGOR SIR GÂR

Byddwn yn cefnogi'r apêl eleni eto yn ystod mis Tachwedd. Gwhoddir chi i gyflwyno rhodd fechan naill ai i faban, i blentyn neu i berson ifanc. Nid oes angen i chi ei lapio. Diolch am bob cefnogaeth. Fe fydd blwch ym mhob capel yn ystod mis Tachwedd

### Dyddiadau Gwasanaethau Nadolig yr Ysgolion Sul

Priordy: Bore Sul 14 Rhagyfr am 10.00 (parti i ddilyn)
Elim: Pnawn Sul 14 Rhagfyr am 3.00 (parti i ddilyn)



# CHWILOTAIR

## Bwyd yn y Beibl

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | Q | S | P | O | L | E | W | Y | D | D | B | U | Z |
| I | P | O | M | G | R | A | N | A | D | A | U | S | F |
| G | R | A | W | N | W | I | N | N | Q | X | U | V | J |
| E | B | S | W | I | C | K | R | K | Q | F | W | T | G |
| L | D | B | J | B | O | V | U | I | E | X | L | A | W |
| L | J | S | Y | S | R | E | W | G | A | O | O | F | E |
| A | Y | H | N | A | I | L | R | H | L | K | I | A | N |
| E | A | O | C | E | A | K | U | V | M | Y | F | L | I |
| T | D | T | E | T | N | I | H | P | O | B | M | O | T |
| H | L | N | N | J | D | R | F | A | N | T | A | Y | H |
| Y | A | F | N | M | E | Y | G | A | D | K | Y | R | S |
| C | X | G | I | E | R | K | P | I | Z | Q | U | Z | A |
| T | P | T | N | L | I | T | U | W | G | C | N | I | A |
| Y | B | Q | N | B | G | A | L | P | Y | S | G | O | D |

AFAL
LLAETH
OLEWYDD
POMGRANADAU
MEL
ALMOND
GRAWNWIN
GWENITH
PYSGOD
CORIANDER
BARA
CENNIN

Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni yr Ysgol Sul dros yt wythnosau nesaf.
Fe fydd hi'n Nadolig cyn bo hir!



Hwyl am y tro

*Beti-Wyn*

## RHODDION DIOLCHGARWCH YN CYRRAEDD

### BANC BWYD CAERFYRDDIN

*Rhoddion Bancyfelin, Cana, Heol Awst a'r Priordy*




### BANC BWYD HEOL DŴR

*Rhoddion Elim*



## NOSON LAWEN YN ELIM

Cynhaliwyd noson lawen lwyddiannus iawn nos Wener, 3 Hydref. Er gwaethaf Storm Amy, daeth tyrfa ynghyd gyda'r Capel yn llawn hyd yr ymylon. Diddanwyd y dorf gan blant Ysgol Sul Elim, Adran yr Urdd Ffynnon-ddain, 'Teulu ni', sef Esther, Luned, Alaw a Leah a Chôr Clwb Rygbi Castellnewydd Emlyn dan arweiniad Daniel Rees ac i gyfeiliant Marian O'Toole. Cadeirydd y noson oedd un o aelodau ffyddlon Elim, sef Brian Jones, Castell Howell. Cafwyd anerchiad ddifyr iawn ganddo wrth iddo rannu â'r gynulleidfa rai o'i atgofion am ei blentyndod yn Elim a fferm Castell Howell. Bu'n noson ardderchog ym mhob ystyr. arweinydd y noson oedd y gweinidog! Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi, ac i Ann Walters a'i thîm am yr holl waith trefnu.










## Y NOSON LAWEN ETO








**Cyhoeddiadau'r Gair**

**Awst 2025**

**£9.99**

## CYRRAEDD BANNAU

**Aled Edwards**

*Cyfrol ar gyfer ein cofnod yw hon. Llyfr i godi rhywfaint ar y galon mewn dyddiau heriol i Gymru a'n byd. Trafodir nifer o heriau diweddar yn y gwaith hwn, sy'n cyffwrdd â ffydd, cenedl a'n byd. Datgelir sut y bu'r Gymru ddatganoledig gyfoes yn arloesol yn nhermau croesawu ffoaduriaid, cynnal hawliau dynol ac ymdrechu i ymdrin â heriau amgylcheddol*

**Olga Williams**



**CINIO DIOLCHGARWCH Y GYMDEITHAS**
**Dydd Mawrth, 21 Hydref 2025**

Daeth tyrfa niferus ynghyd i Ginio Diolchgarwch yr Ofalaeth yng Ngwesty'r Hebog, Dydd Mawrth, 21 Hydref 2025 a phleser oedd cael cwmni llawer o ffrindiau ynghyd ag Aelodau'r Ofalaeth.

Anfonodd ein Gweinidog gyfarchion arbennig o Wlad Thai, ble mae'n cynrychioli Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg yng Nghyfarfod Cyffredionol Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd yn Chiang Mai. Gwelsom eisiau ei chwmni hawddgar ac anfonwyd ein dymuniadau gorau ati am Gynhadledd fendithiol a chyfroes. Edrychwn ymlaen at glywed hanes y daith wedi iddi ddychwelyd adre yn ddiogel.

Ar ôl offrymu gras, cafwyd pryd o fwyd blasus ac amser i gymdeithasu'n hwylus gyda'n gilydd.

Diolchodd Olga i'r Gwesty am y croeso ac i'r staff am y gweini gofalus. Cafwyd prynhawn hyfryd iawn.













# CINIO CYNHAEAF HEOL AWST ETO


























| | |
|---|---|
|  | ***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS Y PRIORDY*** <br> ***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da*** |

## PIP AR DAITH

**Cafodd rhoi o aelodau pobl Ifainc y Priordy (PIP) daith hyfryd o amgylch y dref fore Sul 12 Hydref dan arweiniad Meleri Llwyd O'Leary yn dysgu am raii o blaciau glas y dref. Cawsant fore hynod o ddifyr. A rhaid oed cael paned a chacen cyn mynd adre! Diolch yn fawr iawn Meleri am y gwaith trefu a thywys**






# COFIO TRYCHINEB DOLGARROG




**Ar noson dywyll a stormus ar 2 Tachwedd 1925 profodd pentref Dolgarrog drasiedi enfawr a arweiniodd at golli 16 o fywydau, 10 oedolyn a 6 o blant, a difrod helaeth i'r gymuned.**

**Yn 1911, agorwyd argae Llyn Eigiau i gyflenwi dŵr ar gyfer gorsaf bŵer Dolgarrog a oedd yn darparu trydan ar gyfer ffatri alwminiwm y pentref yn ogystal â nifer o drefi'r glannau. Yn ddiweddarach, ym 1924 adeiladwyd argae ychwanegol - argae Coedty.**

**Ar ôl pythefnos o law trwm ar y noson honno ym Mis Tachwedd 1925, gan mlynedd yn ôl, methodd argae Llyn Eigiau, gan ryddhau cyfaint enfawr o ddŵr i argae Coedty ymhellach i lawr y dyffryn. Achosodd y dŵr ychwanegol i argae Coedty fethu, gan ryddhau tua 350 miliwn metr ciwbig o ddŵr a chlogfeini enfawr a ruthrodd i lawr ochr y mynydd a thrwy bentref Dolgarrog.**




**Pentref a chymuned ym mwrdeistref sirol Conwy, Cymru, yw Dolgarrog. Saif ar ffordd y B5106 ar hyd glan orllewinol Afon Conwy, rhwng Tal-y-bont a Threfriw.**

**Yn sgil y digwyddiad collodd o leiaf hanner cant o drigolion eu cartrefi a'u holl eiddo.**

**Adroddwyd ar y pryd y byddai nifer y marwolaethau wedi bod yn llawer uwch oni bai am y ffaith bod llawer o bentrefwyr yn gwylio ffilm yn y theatr leol, adeilad a oedd tu hwnt i gyrraedd y llif.**

**Yn anffodus, nid Dolgarrog oedd y pentref Cymreig cyntaf i brofi'r fath drychineb. Cafodd deuddeg o bobl yng Nghwm-carn yng Nghwm Ebwy eu lladd pan dorrodd argae yno wedi cyfnod o law trwm ym mis Gorffennaf 1875. Er gwaethaf y dinistr a brofwyd yng Nghwm-carn ni chyflwynodd y Llywodraeth reoliadau diogelwch argaeau.**







**Yn Ebrill 1925, yn Skelmorlie yn Swydd Ayrshire yn yr Alban drylliodd rhan o’r argae uwchben y pentref bach tawel gan ryddhau miliynau o alwyni o ddwr ac arweiniodd hynny at farwolaeth pum person.**

**Arweiniodd y trychineb yn Nolgarrog, ynghyd â’r digwyddiad yn Skelmorlie yn yr Alban, at gyflwyno deddfwriaeth diogelwch cronfeydd dŵr gyntaf y Deyrnas Unedig yn 1930. Addaswyd y ddeddf drachefn ym 1975 mewn ymdrech i sicrhau na fyddai'r fath drychineb a welwyd yng Nghwmcarn a Dolgarrog a Skelmorlie byth yn digwydd eto.**

**Mae trigolion Dolgarrog yn cofio’r drychineb mewn sawl ffordd. Mae’r gymuned yn cynnal gwasanaeth coffa i anrhydeddu’r chwe phlentyn a’r deg oedolyn a gollodd eu bywydau yn y llifogydd. Agorwyd llwybr coffa yn 2004 yn Nolgarrog sy’n mynd heibio mannau arwyddocaol ac yn egluro'r digwyddiad. Yn 2017 cafodd gardd goffa ei hadnewyddu i gofio am y rhai a fu farw a dadorchuddiwyd cofeb yno i gofio am y trychineb. Mae’n drueni bod y gofeb hon yn un uniaith Saesneg a mynegodd aelodau'r cyhoedd eu siom ar wefannau cymdeithasol am hynny. Trefnir digwyddiadau i addysgu'r gymuned am y trychineb, gan gynnwys prosiectau celf gweledol a chlywedol a gomisiynwyd gan blant ysgolion lleol ac artistiaid. Mae'r ymdrechion hyn yn anelu at gadw cof am y trychineb yn fyw a sicrhau bod ei effaith yn parhau i gael ei deimlo o fewn y gymuned.**



Croes a Chloch yw'r ychydig eitemau sydd ar ôl o'r eglwys wreiddiol a olchwyd ymaith yn y trychineb. Cedwir y gloch yn y Ganolfan Gymunedol a chaiff ei chanu er cof am y rhai a gollwyd ar bennau blwydd arbennig, fel eleni adeg y canmlwyddiant. Cofiwn ninnau hefyd yn ein gweddïau ar yr adeg arbennig hon am anffodusion trychineb Dolgarrog a phob trychineb arall sydd wedi effeithio cymaint ar bobl ledled y byd ac sy'n parhau i wneud hynny.



**GAIR O DDIOLCH**

**Diolch i'n Gweinidog am ddarparu gwasanaeth ar y thema 'Cariad' ar ein cyfer ac i'r canlynol am eu cymorth wrth ei gyflwyno:**

**ELIM**
**(Ar gyfer Elim ac Heol Awst)**
**David Morgan, Natalie Evans, Mirain Walters, Elisabeth Evans (Piano), Bet Jones (Cyhoeddwr) (E), Nigel George ac Ernest Jones (HA).**

**Y PRIORDY**
**Catrin Heledd Jones, Carys Morgans, Heledd ap Gwynfor, Meleri Llwyd O'Leary, Tim Hayes, Janet Davies (Organ), Dennis Jones (Cyhoeddwr), Elis Jones (Technegydd), Aneurin, Brynmor, Sianco, Greta a Meredydd (Casglyddion).**

**Ar Sul olaf y mis, roedd yr oedfa yn y Priordy dan ofal yr aelodau, Adrian Evans, Alun Charles, Sulwyn Thomas, Elinor Wyn Reynolds gyda Heather Williams wrth yr organ a Dennis Jones yn cyhoeddi, ac yn Heol Awst gydag Elim yng ngofal y Parchedig Emyr Gwyn Evans.**

**BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL**

**Dydd Sadwrn, 29 Tachwedd 2025**

**10.00-12.00**

**Capel Wesle**

cymorth cristnogol

# ATEBION Y CWIS

## Mis Hydref
## (gan nad oeddent yn ein rhifyn diwethaf!!)

| CWIS Y DIARHEBION - ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | teulu | 6 | Mostyn |
| 2 | gi | 7 | gorffwys |
| 3 | bopeth | 8 | rywun |
| 4 | dolur | 9 | diogi |
| 5 | dim | 10 | ewyllys |

## Mis Tachwedd

| CWIS Y DIARHEBION - ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | gyfaill | 6 | melyn |
| 2 | gwybodaeth | 7 | amser |
| 3 | arddwrn | 8 | chwyn |
| 4 | dân | 9 | henaint |
| 5 | sur | 10 | fai |



**Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin**

# Oedfaon Nadolig 2025

**7 Rhagfyr**
Oedfa Adfent dan olau cannwyll yn Y Priordy
gyda'r bobl Ifanc am 5.00

**14 Rhagyfr**
Oedfa Nadolig Y Priordy am 10.00
Parti i ddilyn

Oedfa Nadolig Cana am 1.00
Parti i ddilyn

Oedfa Nadolig Elim am 3.00
Parti i ddilyn

Y Blygain yn Eglwys Crist am 7.00

**21 Rhagfyr**
Oedfa Nadolig Heol Awst am 10.00
Paned a Mins Pei i ddilyn

Dathliad Nadolig Bancyfelin am 6.00
Paned a Mins Pei i ddilyn

**25 Rhagfyr -** Bore Nadolig
Oedfa Deulu Undebol yn Y Priordy am 9.00

## ROTA YMWELWYR
## ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY

| TACHWEDD / RHAGFYR | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| E | Aelodau | HA | Aelodau | P | Catrin Heledd Jones Betsan James Eirlys Davies Margaret Lloyd Evans |

## HEOL AWST
## DYLETSWYDDAU'R SUL

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tachwedd | Alun Williams<br>Olga Williams | Rhagfyr | i'w drefnu |

## CAPEL ELIM

### BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tachwedd | 2 | Brian Jones | Rhagfyr | 7 | Ann Walters |
| | 16 | Anona Defis | | | Ann Walters |

### PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | |
|---|---|---|
| Tachwedd | 2 | Claire Thomas |
| Rhagfyr | 7 | Alison Evans |

## PRIORDY

### GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Tachwedd | | Rhagfyr | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Jayne Woods | Huw Jones | Dennis Jones | Huw Michael |

### BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tachwedd | 2 | Myfanwy Jones Llanarthne | Rhagfyr | 7 | |
| | 9 | Heol Awst | | 14 | |
| | 16 | Mwynwen Jones | | 21 | |
| | 23 | | | 28 | |
| | 30 | Catrin Mair Jones | | | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tachwedd | 2 | Bore | Mwynwen Jones a Thelma Evans |
| Rhagfyr | 7 | Bore | Catrin Mair Jones ac Alison Parsons |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tachwedd | 2 | Y Plant | Rhagfyr | 7 | Meinir Jones |
| | 9 | June Thomas | | 14 | Y Plant |
| | 16 | Gareth Gravell | | 21 | Alun Charles<br>(HA – Undebol) |
| | 23 | Dennis jones | | 28 | Huw Jones |
| | 30 | Catrin Mair Jones | | | |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tachwedd | Elis Jones | Rhagfyr | Huw Michael |

## CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH

| | | | |
|---|---|---|---|
| ELIM | Bore Mercher | 11.00 | Festri Elim |
| HEOL AWST | Prynhawn Mercher<br>11 Chwefror | 2.00 | Festri Heol Awst |
| Y PRIORDY | Nos Lun<br>17 Tachwedd | 7.00 | Festri'r Priory |

## SUL DIOGELU

**Cynhelir Sul Diogelu eleni ar 19 Tachwedd, (sy'n cyd-fynd â'r Wythnos Genedlaethol Diogelu Oedolion).**
**Mae'r Panel Diogelu Cydenwadol yn eich annog i ymuno â miloedd o eglwysi ar draws y DU i dynnu sylw at bwysigrwydd amddiffyn pobl fregus fel rhan o Sul Diogelu.**
**Gweler Gwefan yr Undeb am ragor o wybodaeth, yn cynnwys Gweddi a Gwasanaeth wedi'u paratoi gan y Panel.**

# RHWYDWAITH

EIN cofion cynnes at bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Brian Walters (E), Rhys Evans (E) a Nansi John (HA). Cofion annwyl atoch i gyd



Bu Huw Michael (P) ar y Post Prynhawn ar Radio Cymru yn trafod arwyddocâd y cyhoeddiad fod mwy o drydan o ffynonellau adnewyddadwy wedi cael ei gynhyrchu yn fyd eang yn ystod 6 mis cynta'r flwyddyn nag o bwerdai glo. Hefyd fod y cynnydd yn y galw am drydan dros yr yn cyfnod wedi cael ei ateb yn llwyr gan y cynnydd mewn trydan adnewyddadwy (yn enwedig paneli solar). Esboniodd mai dyna yw'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol ond bod ffordd bell i fynd eto gan fod y byd yn dal i ddibynnu ar lo am draean o'r trydan sy'n cael ei ddefnyddio yn fyd eang. Hefyd mae pwerdai glo newydd yn dal i gael eu hadeiladu yn India a Tsieina gan fod angen mwy o drydan o bob ffynhonnell arnyn nhw i ateb y cynnydd yn y galw yn y gwledydd hynny.

Bu Catrin Haf Williams (P) ar Raglen Bwrw Golwg ar Radio Cymru yn trafod defnydd Benjamin Netanyahu, Prif Weinidog Israel, o’r Ysgrythur.

Bu’r Dr Llinos (P) ynghyd ag Emma Walford a’r cyflwynydd Elin Fflur yn trafod y menopos ar Heno ar S4C. Roedd Llinos hefyd ymysg y rhai a fu’n cyfarch Siân Cothi ar Radio Cymru ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig Siân. Da gweld Gwenno Morgan (E), Nantybwla ar raglen Ffermio S4C yn siarad am sut i lwyddo yn y cylch dangos. Roedd Oedfa’r bore un Sul ar Radio Cymru dan arweiniad Elinor Wyn (P), Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb pan fu’n trafod y rhesymau dros fynd i’r cwrdd. Bu Beti-Wyn yn cyflwyno Munud i Feddwl yn ystod y mis – yn rhannol o Gaerfyrddin ac yn rhannol o Wlad Thai!

**Llongyfarchiadau i Ifan Charles, mab Eluned ac Alun Charles (HA) ar ei benodi'n Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys. Mae Gweinidog, Aelodau Heol Awst a'r Ofalaeth gyfan yn ymfalchïo yn ei lwyddiant ac yn dymuno yn dda iddo yn y swydd gyfrifol yma. Dymuniadau gorau Prif Gwnstabl Ifan Charles, Heddlu Dyfed Powys.**



**I gloi, llongyfarchiadau i Eirlys Thomas (HA) ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar Pob dymuniad da, Eirlys, oddi wrthym i gyd!**

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Tachwedd i'n
Gweinidog neu Alun Charles

**CYDYMDEIMLAD**

**Trist gennym glywed am farwolaeth Mrs Maureen Richards (HA). Estynnwn ein cydymdeimlad â'r plant, Lyn a Gwenda, a'r teulu cyfan yn eu colled. Bydd yr angladd yn gwbl breifat yn ôl dymuniad y teulu. Bydd teyrnged i Maureen yn ein rhifyn nesaf.**

**Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org**

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
Trowch at: cyfundeb.com





**DIOLCH YN FAWR**

**Diolch i Beti-Wyn, Betsan James ac Athrawon yr Ysgolion Sul am y lluniau'r mis hwn.**

## SULIADUR TACHWEDD / RHAGFYR 2025

| Dyddiad | 10.00 | 11.30 | 3.00 | Amseroedd isod |
|---|---|---|---|---|
| **Tachwedd 2** | Priordy ©- *CP*<br>Gweinidog | Elim © (+HA)<br>Gweinidog | | |
| **Tachwedd 9** | Heol Awst © i E, HA a P<br>Gweinidog | | | |
| **Tachwedd 16** | Priordy<br>Gweinidog | Elim (+HA)<br>Gweinidog | | |
| **Tachwedd 23** | Priordy<br>Owain Llyr Evans<br>Heol Awst (+E)<br>John Gwilym Jones | | | |
| **Tachwedd 30**<br>**Adfent 1** | Priordy<br>Oedfa i Gapeli Cymraeg y dref. Gweinidog | | | |
| **Rhagfyr 7**<br>**Adfent 2** | Priordy©<br>Gweinidog | Elim © (+HA)<br>Gweinidog | | Priordy (PIP)<br>am 5.00 |
| **Rhagfyr 14**<br>**Adfent 3** | Priordy (Nadolig)<br>Gweinidog | | Elim (Nadolig) (+HA)<br>am 3.00. Gweinidog | Y Blygain (i E, HA a P)<br>Eglwys Crist am 7.30 |
| **Rhagfyr 21**<br>**Adfent 4** | Heol Awst © (Nadolig)<br>Oedfa i E, HA a P.<br>Gweinidog | | | Bancyfelin i'r<br>Ofalaeth gyfan<br>am 6.00. Gweinidog |
| **Rhagfyr 25**<br>**Bore Nadolig** | Priordy i'r Ofalaeth gyfan<br>9.00. Gweinidog | | | |
| **Rhagfyr 28** | Heol Awst<br>Oedfa i E, HA a P.<br>Gweinidog | | | |

**Y PRIORDY**

**Y Sul olaf ar gyfer derbyn ein cyfraniadau fydd**

**14 Rhagfyr 2025**

## AMSERLEN YR YSGOL SUL
## TACHWEDD / RHAGFYR 2025



**Elim**

Tachwedd 2- Dim Ysgol Sul
Tachwedd 9 – Ysgol Sul
Tachwedd 16 – Ysgol Sul
Tachwedd 23 – Ysgol Sul
Tachwedd 30 – Ysgol Sul
Rhagfyr 7 -Ysgol Sul
Rhagfyr 14 – Oedfa Nadolig
Rhagfyr 21 – Dim Ysgol Sul
Rhagfyr 28 – Dim Ysgol Sul

**Y Priordy**

Tachwedd 2- Dim Ysgol Sul
Tachwedd 9 – Ysgol Sul
Tachwedd 16 – Ysgol Sul
Tachwedd 23 – Ysgol Sul
Tachwedd 30 – Ysgol Sul
Rhagfyr 7 -Ysgol Sul
Rhagfyr 14 – Oedfa Nadolig
Rhagfyr 21 – Dim Ysgol Sul
Rhagfyr 28 – Dim Ysgol Sul



**Theatre y Lyric, Caerfyrddin**

**PEDAIR**

**Nos Iau 5 Chwefror 2026**

**Tocynnau: £15.50 hyd at 1 Rhagfyr £17.50 wedi hynny!**





**DIWRNOD Y RHUBAN GWYN – 25 TACHWEDD 2025**
**Mae’r ymgyrch yn cael ei chynnal ar draws y byd bob blwyddyn. Cawn ein hannog eleni i godi’n llais a chreu byd ble mae merched a menywod yn ddiogel, yn gyfartal, ac yn cael eu parchu.**

**GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN**



Ymweliad ac

# Eglwys San Pedr Caerfyrddin

Dydd Mawrth, 18 Tachwedd
am 2 o'r gloch
yng nghwmni Alun Lenny.

Paned o de i ddilyn yng
Ngwesty'r Llwyn Iorwg

Croeso i bawb

## GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN
### YN CEFNOGI
## APÊL ANRHEGION NADOLIG CYNGOR SIR GÂR

Byddwn yn cefnogi'r apêl eleni
eto yn ystod mis Tachwedd.
Gwhoddir chi i gyflwyno rhodd
fechan naill ai i faban,
i blentyn neu i berson ifanc.
Nid oes angen i chi ei lapio.
Diolch am bob cefnogaeth.
Fe fydd blwch ym mhob capel yn
ystod mis Tachwedd